BYDDWCH YN

# DDIOGEL RHAG TÂN

## LLYFR GWEITHGARWCH



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

# MAE'R LLYFR HWN YN PERTHYN I:

Enw:

Rwy'n byw yn:

Rhif Ffôn:



Tynnwch eich llun o dan helmed yr Ymladdwr Tân

# AMCANION DYSGU:

- Rhaglen sy'n seiliedig ar ganlyniadau yw hon a gynlluniwyd i ddysgu plant a'u teuluoedd i fod yn gyfrifol â matsis a thanwyr.
- I ddeall peryglon bod yn anniogel â tân.

# PRAWF GWYBODAETH TÂN!





**1** Mae rhai tanau'n dda a rhai yn ddrwg. Ticiwch pa danau sy'n dda a pha rai sy'n ddrwg?

| | DA | DRWG |
|---|---|---|
| • Perth ar dân | | |
| • Canhwyllau ar deisen penblwydd | | |
| • Tân mewn lle tân | | |
| • Tŷ ar dân | | |
| • Chwarae â thân neu fatsis | | |

**2** Beth yw'r rhif fyddwch yn galw ar gyfer y Gwasanaeth Tân?




**3** Sut all tân eich brifo? Ysgrifennwch stori neu dynnwch lun yn dangos sut gall tân eich brifo.

**4** Os byddwch yn dod o hyd i fatsis neu daniwr, beth ddylech ei wneud?

# OFFER A THEGANAU

Gall offer fod yn beryglus.
Dylai plant FYTH chwarae â hwy!

## OFFER



## TEGANAU







Ai offer neu deganau yw'r rhain? Ticiwch y cylch isod.

OFFER ○ TEGANAU ○

Pwy ddylai defnyddio'r rhain yn eich cartref? ____________

# TÂN DA NEU DÂN DRWG?




1. Ai tân da neu dân drwg yw hwn?

2. Pwy ddylai cynnau'r canhwyllau ar deisen penblwydd?

3. Ble dylid rhoi'r taniwr wedi cynnau'r canhwyllau?

4. Beth all ddigwydd pe bai cannwyll yn cwympo oddi ar y deisen?

5. A ddylai eich brawd bach neu eich chwaer fach gynnau'r canhwyllau ar y deisen?

# BOD YN DDIOGEL RHAG TÂN


Ticiwch y gylch sydd wrth ymyl y llun sy'n dangos y peth mwyaf diogel i'w wneud o ran tân.



























# LLONGYFARCHIADAU!

**Rydych chi'n dysgu i fod yn ddiogel rhag tân.**

# DDIOGEL NEU ANNIOGEL

Mae'r gwrthrychau a ddangosir isod naill ai'n eitemau diogel neu anniogel.

Rhowch bob gwrthrych yn eu blwch cywir wrth ddefnyddio'r llythrennau ger bob un. Mae'r gwrthrychau diogel yn mynd i'r blwch teganau a'r gwrthrychau anniogel yn mynd i'r blwch offer. Ysgrifennwch lythyren y gwrthrych o fewn cylchoedd naill ai'r blwch teganau neu'r blwch offer.



## BLWCH TEGANAU




## BLWCH OFFER



# CERDD
## ANDREW

Roedd gan Andrew focs o fatsis
O dan ei wely clyd,

Wedi iddo gynnau un,
fe losgwyd Ted i gyd.

Na chwaraewch fyth â matsis,
medd ei Fam o hyd

Am beth twp yw chwarae gyda
thân dan wely clyd.

Nawr heb gwmni Ted fydd Andrew,
llosgwyd bob un bys yn arw

Lwcus yw nad yw e'n farw!






# GWNEUD y PENDERFYNIADAU CYWIR





1. Beth mae'r plant yn y llun yn ei wneud uchod?

2. Beth ydych chi'n meddwl all ddigwydd?

3. Ydych chi erioed wedi cynnau matsis neu ddefnyddio taniwr eich hun?

4. Ydy plant i fod i chwarae â matsis a thanwyr? Eglurwch pam:

5. Pe baech yn gweld y plant hyn yn chwarae â thân, beth fyddwch yn gwneud?

# BETH YW'R PETH CYWIR I'W WNEUD?



Tynnwch linell o'r matsis a'r taniwr i'r llun lle'r ydych yn meddwl dylid rhoi'r matsis a'r taniwr.










Pa benderfyniad yw'r dewis da a pha benderfyniad yw'r dewis drwg? Ticiwch y cylch naill ai yn y golofn werdd neu'r golofn goch. Pa ateb ydych chi'n credu yw'r un cywir?

| DEWIS DA | | DEWIS DRWG |
|---|---|---|
| ○ | Os wyf mewn tân mewn tŷ, dyliwn ganfod cwpwrdd i'w guddio ynddo. | ○ |
| ○ | Os bydd fy ffrindiau'n chwarae â matsis, dylwn ddweud wrth oedolyn. | ○ |
| ○ | Pe bawn i'n gweld bocs o fatsis yn y garej, dylwn ni eu rhoi nhw yn dy mhoced? | ○ |
| ○ | Pe bawn i'n gweld fy mrawd bach yn chwarae â thaniwr, dylwn i gymryd e a'i roi i oedolyn? | ○ |

# MAN CYFARFOD DIOGEL

Man cyfarfod diogel yw'r man tu allan i'r tŷ lle mae pawb yn cwrdd mewn argyfwng.

Ysgrifennwch lle fydd eich man cyfarfod diogel.

Darluniwch lun o'r bobl yn eich teulu yn eich man cyfarfod diogel.

Ysgrifennwch enwau'r bobl yn eich llun.

Pam ydych chi wedi dewis y man cyfarfod diogel hwn?

# NEGESEUON DIOGELWCH ALLWEDDOL

1. Offer yw matsis a thanwyr nid teganau.
2. Ar bob adeg rhowch fatsis neu danwyr i oedolyn.
3. Os bydd eich tŷ ar dân, ewch allan ac ewch at eich man cyfarfod diogel.

## DA IAWN!

Cofiwch ar bob adeg i ymarfer bod yn ddiogel.

# NODIADAU